Cystadleuaeth Sgiliau Cymru | Skills Competition Wales

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

# Competition Brief

## Competition title

Health and Social Care

## Competition overview

This is a one-day competition. All contestants will need to attend a short Health and Safety (housekeeping) briefing at registration on the date of the competition.

Competitors, in pairs, will be involved in activity 1 (role play), competitor pairs will be determined on the day. Students from the same provider will not be able to compete as a pair.

Competitors will be expected to deal with issues as they arise, using the knowledge and understanding they have of how to assist and support individuals with the defined condition(s).

During activity 2 competitors will individually be required to carry out and record data from individual routine observations. They will be required to explain and provide supporting rationale for their performance. Competitors will be asked to reflect on the performance of their pair and their own contribution. They should comment on their strengths and weaknesses during the role play and how the pair could perform better in the future.

The multiple-choice questionnaire and the reflection activity following the role play will be taken individually by each competitor. The multiple-choice questionnaire will contain some general questions relating to theory and policy relevant to the sector.

Providers can register, using the online registration system, for a maximum of three places. Places allocated will be confirmed after the registration deadline.

## Entry criteria

Those wishing to enter this competition should be:

- Studying or enrolled on a level 3 programme or
- Have achieved a level 3 qualification in Health and Social Care in the last 12 months

## Number by location/organisation

**Capacity for the competition as a whole:** 20 max per heat

**Maximum number of entries by location/organisation:** Up to 2 per location and up to a maximum of 3 per organisation

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## Brief

The competition consists of three activities.

**Activity 1: Complete paired role play activity: up to 30 minutes**

You are a domiciliary care support worker (Team Leader) who has a staff member who visits Sam Green every morning. This care worker is off sick and you are covering for them.

Sam Green is a 77 year old individual who has dementia that has progressed rapidly in the last 2 years. Sam's symptoms include; problems with remembering recent names and events. Sam can ask questions repeatedly and can become confused and agitated. Sam may also become agitated if asked too many questions. Sam has daily medication for dementia.  Sam is often reluctant to get out of bed, wash, and dress and have breakfast. Currently, Sam is managing to live independently at home, however it is causing loneliness and depression. Unfortunately, Sam rarely leaves the house.

**Activity 2: Individual task: up to 15 minutes**

At the end of activity 1 there will be an individual task involving some routine observations. This activity will include a reflection and evaluation session with the judging panel.

**Activity 3: Multiple choice questionnaire: up to 15 minutes**

A multiple choice questionnaire for the entrants to complete.

**Activity 4: Health Emergency: up to 20 Minutes**

You are a healthcare support worker supporting an elderly individual on your daily visit to help with a meal at tea time. When you arrive you find the individual on the floor. You will need to administer emergency first aid.

## Infrastructure List

Resources, equipment available at the venue.

## Competition rules

**Competition specific rules**

Those wishing to enter this competition should be:

- Standards of dress should be professional and adhere to relevant professional standards. Attire must be non-branded (i.e. no college/employer logos visible).
- All activities must be completed by competitors within the allotted time.
- All online registrations must be made by 25 October 2019 www.skillscompetitionwales.ac.uk.

**Generic competition rules**

- Mobile phones to be switched off during competition activity.
- Listening to music via headphones is not permitted during competition activity.
- Any questions during competition activity should be addressed to the competition judging panel.
- Competitors should not communicate with other competitors during competition activity.
- It is the responsibility of each competitor to arrive on time for each competition session. No additional time will be allowed if you arrive late.
- Technical failure of your equipment should be reported immediately to the judging panel. Additional time will be allocated if the fault is beyond the control of the competitor.

## Marking and assessment

Brief breakdown of marking and assessment.

| Activity | Marks available |
|---|---|
| **Activity 1: Complete paired role play activity** | |
| Work and organisation | 1.25 |
| Communication | 1.5 |
| Problem solving | 0.5 |
| Observation | 1.0 |
| Delivering safe care | 2.75 |
| Reflective | 0.5 |
| **Total** | **8 marks** |
| **Activity 2: Individual task** | |
| Work and organisation | 1.25 |
| Communication | 1.5 |
| Problem solving | 0.5 |
| Observation | 1.0 |
| Delivering safe care | 2.75 |
| Reflective | 0.5 |
| **Total** | **8 marks** |
| **Activity 3: Multiple choice questionnaire** | **20 marks** |

| Activity 4: Health Emergency | |
|---|---|
| Work and organisation | 1.25 |
| Communication | 1.5 |
| Problem solving | 0.5 |
| Observation | 1.0 |
| Delivering safe care | 2.75 |
| Reflective | 0.5 |
| **Total** | **8 marks** |

## Feedback and recognition

Individual and Group verbal feedback will be provided at the end of the competition. (Written feedback will not be provided)

No results or awards will be awarded on the day as marking will be quality assured.

Certificates of Participation will be issued on the day.

Medallists will be invited to a Celebration Event which will be held on 19th March 2020 at Sophia Hall, Sophia Gardens, Cardiff CF11 9XR from 12pm to 5 pm, where the First, Second and Third Awards will be presented. https://www.sophiagardens.wales/venue/the-sophia-hall.html

## Competition Lead

**Lead Contact:**

Sarah Howells - sarah.howells@colegsirgar.ac.uk or 01554 748322

**Subject Expert**

Amy Williams - Amy.williams@colegsirgar.ac.uk

Briff y Gystadleuaeth

## Teitl y gystadleuaeth

Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## Trosolwg o'r gystadleuaeth

Mae hon yn gystadleuaeth undydd. Bydd angen i bob cystadleuydd fod yn bresennol mewn sesiwn briffio Iechyd a Diogelwch byr (cynnal a chadw) wrth gofrestru ar ddiwrnod y gystadleuaeth.

Bydd cystadleuwyr, mewn parau yn rhan o weithgaredd 1 (chwarae rôl) a bydd y parau o gystadleuwyr yn cael eu pennu ar y dydd. Ni fydd myfyrwyr o'r un darparydd yn cael hawl i gystadlu fel pâr.

Bydd disgwyl i gystadleuwyr ymdrin â phroblemau wrth iddynt godi gan ddefnyddio'r wybodaeth a'r deallusrwydd sydd ganddynt i gynorthwyo a chefnogi unigolion sydd â chyflwr/cyflyrau penodol.

Yn ystod gweithgaredd 2, bydd disgwyl i gystadleuwyr weithredu a chofnodi data o arsylwadau arferol yr unigolyn. Bydd disgwyl iddyn nhw esbonio a chynnig rhesymau dros eu perfformiad unigol. Gofynnir i gystadleuwyr adlewyrchu ar berfformiad eu pâr ac ar eu perfformiad unigol. Dylent wneud sylwadau ar eu cryfderau a'u gwendidau yn ystod y chwarae rôl a sut fyddai fodd iddynt, fel pâr wella'u perfformiad yn y dyfodol.

Bydd yr holiadur amlddewis a'r gweithgaredd adlewyrchol (reflective) yn cael eu gwneud yn unigol gan bob cystadleuydd. Bydd yr holiadur amlddewis yn cynnwys rhai cwestiynau cyffredinol a fydd yn ymwneud â theori a pholisi sy'n berthnasol i'r sector.

Gall darparwyr gofrestru gan ddefnyddio'r system gofrestru ar-lein ar gyfer uchafswm o dri lle. Bydd y llefydd a fydd yn cael eu dyrannu'n cael eu cadarnhau wedi dyddiad cau'r broses gofrestru.

## Meini prawf cystadlu

Dylai'r sawl sydd am ymgeisio fod yn:

- Astudio neu wedi eu cofrestru ar gyfer rhaglen lefel 3 neu
- wedi cyflawni cymhwyster Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod y 12 mis diwethaf.

## Nifer fesul lleoliad/sefydliad

Capasiti ar gyfer y gystadleuaeth gyfan.

**20 cystadleuydd ar gyfer pob cymal**

Uchafswm nifer yr ymgeiswyr ar gyfer pob lleoliad/sefydliad

**Hyd at 2 ar gyfer pob lleoliad ac uchafswm o 3 ar gyfer pob sefydliad.**

## Briff

**Mae'r gystadleuaeth yn cynnwys tri gweithgaredd**

**Gweithgaredd 1: Cwblhau gweithgaredd rôl mewn grwpiau: Hyd at 30 munud**

Rydych yn weithiwr cymorth yn y cartref (Arweinydd Tîm) ac mae aelod o'ch staff yn ymweld â Sam Green bob bore. Mae'r gweithiwr gofal hwn yn absennol o achos salwch ac rydych chi yn gweithio yn ei le.

Mae Sam Green yn 77 oed ac mae ganddo dementia sydd wedi gwaethygu'n gyflym yn ystod y 2 flynedd diwethaf. Mae symptomau Sam yn cynnwys problemau'n cofio enwau a digwyddiadau diweddar. Gall Sam ailadrodd cwestiynau a gall fod yn ddryslyd ac yn anniddig. Gall Sam hefyd fod yn anniddig os gofynnir gormod o gwestiynau iddo. Mae Sam yn derbyn meddyginiaeth yn ddyddiol ar gyfer dementia. Yn aml, ni fydd am godi o'r gwely, ymolchi, gwisgo nag yn cael brecwast. Ar hyn o bryd, mae Sam yn llwyddo i fyw'n annibynnol yn ei gartref. Fodd bynnag, mae'r ffaith ei fod ar ei ben ei hun yn arwain at unigrwydd ac iselder. Yn anffodus, dydy Sam ddim yn gadael y tŷ yn aml iawn.

**Gweithgaredd 2: Tasg unigol: hyd at 15 munud**

Ar ddiwedd gweithgaredd 1, bydd tasg unigol a fydd yn cynnwys rhai arsylwadau perthnasol.
Bydd y sesiwn hon yn cynnwys sesiwn adlewyrchol a gwerthusiad gyda'r panel barnu.

**Gweithgaredd 3: Holiadur amlddewis: hyd at 15 munud**

Bydd holiadur amlddewis i'r ymgeiswyr i'w gwblhau.

**Gweithgaredd 4: Argyfwng Iechyd: hyd at 20 munud**

Rydych yn weithiwr cymorth gofal iechyd sy'n cynorthwyo unigolyn oedrannus. Yn ystod eich ymweliad dyddiol rydych yn cynorthwyo gyda pharatoi bwyd ar gyfer amser te. Wedi i chi gyrraedd, rydych yn dod o hyd i'r unigolyn ar y llawr. Bydd angen i chi roi cymorth cyntaf, brys iddo.

## Rhestr Seilwaith

Adnoddau, offer ar gael yn y lleoliad.

## Rheolau'r gystadleuaeth

**Rheolau penodol y gystadleuaeth**

Dylai'r sawl sydd am ymgeisio fod yn:

- Astudio neu wedi eu cofrestru ar gyfer rhaglen lefel 3 neu
- wedi cyflawni cymhwyster Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal cymdeithasol yn ystod y 12 mis diwethaf

Dylai safonau gwisg fod yn broffesiynol ac yn cydymffurfio â safonau proffesiynol perthnasol. Ni ddylai dillad fod wedi eu brandio (h.y. dim logo'r coleg/cyflogwr.)

Dylai pob gweithgaredd gael eu cwblhau gan gystadleuwyr oddi fewn i'r amser dynodedig.

Dylai pob cofrestriad ar-lein gael ei gwblhau cyn 25 Hydref 2019

Dylai POB cofrestriad ar gyfer cystadlaethau gael eu gwneud drwy'r porthol ar-lein yn at www.skillscompetitionwales.ac.uk <http://www.skillscompetitionwales.ac.uk/>.

**Rheolau cyffredinol y gystadleuaeth**

- Dylid diffodd ffonau symudol yn ystod y gystadleuaeth.
- Ni chaniateir gwrando ar gerddoriaeth gyda chlustffonau yn ystod y gystadleuaeth.
- Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau yn ystod y gystadleuaeth at y panel beirniaid.
- Ni ddylai'r cystadleuwyr gyfathrebu gyda chystadleuwyr eraill yn ystod y gystadleuaeth.
- Cyfrifoldeb pob cystadleuydd fydd cyrraedd ar amser ar gyfer pob rhan o'r gystadleuaeth. Os ydych chi'n cyrraedd yn hwyr, ni roddir amser ychwanegol.
- Pe bai rhyw wall technegol ar eich offer, dylid rhoi gwybod i'r panel beirniaid yn syth. Bydd amser ychwanegol yn cael ei roi os bydd y gwall y tu hwnt i reolaeth y cystadleuydd.

## Marcio ac asesu

Crynodeb o farcio ac asesiad.

| **Gweithgaredd** | |
|---|---|
| **Gweithgaredd 1: Cwblhau gweithgaredd mewn parau** | |
| Gwaith a threfniadaeth | 1.25 |
| Cyfathrebu | 1.50 |
| Datrys Problem | 0.50 |
| Arsylwi | 1.00 |
| Darparu gofal diogel | 2.75 |
| Adlewyrchu | 0.50 |
| **Cyfanswm** | **8.00 marc** |

| | |
|---|---|
| **Gweithgaredd 2: Tasg unigol** | |
| Gwaith a threfniadaeth | 1.25 |
| Cyfathrebu | 1.50 |
| Datrys Problem | 0.50 |
| Arsylwi | 1.00 |
| Darparu gofal diogel | 2.75 |
| Adlewyrchu | 1.50 |
| **Cyfanswm** | **8.00 marc** |
| **Gweithgaredd 3: Holiadur Amlddewis** | **20.00 marc** |
| **Gweithgaredd 4: Argyfwng Iechyd** | |
| Gwaith a threfniadaeth | 1.25 |
| Cyfathrebu | 1.50 |
| Datrys Problem | 0.50 |
| Arsylwi | 1.00 |
| Darparu gofal diogel | 2.75 |
| Adlewyrchu | 0.50 |
| **Cyfanswm** | **8.00 marc** |

## Adborth a chydnabyddiaeth

Bydd adborth llafar, yn unigol ac mewn grŵp, yn cael ei roi ar ddiwedd y gystadleuaeth. (Ni roddir adborth ysgrifenedig).

Ni fydd unrhyw ganlyniadau na gwobrau'n cael eu dyfarnu ar y diwrnod oherwydd bydd angen sicrhau ansawdd y marcio.

Bydd Tystysgrifau Cyfranogi'n cael eu dosbarthu ar y diwrnod.

Bydd enillwyr medalau'n cael eu gwahodd i Achlysur Dathlu a gynhelir ar 19 Mawrth 2020 yn Neuadd Sophia, Gerddi Sophia, Caerdydd CF11 9XR rhwng 12pm a 5pm, lle y bydd y Gwobrau Cyntaf, Ail a Thrydydd yn cael eu cyflwyno. https://www.sophiagardens.wales/venue/the-sophia-hall.html

## Arweinwyr y Gystadleuaeth

**Prif Gyswllt**

Sarah Howells **- sarah.howells@colegsirgar.ac.uk or 01554 748322**

**Arbenigwr Pwnc**

Amy Williams - **Amy.williams@colegsirgar.ac.uk**